**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 19 Ebrill 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Sherwood | M Thomas |

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Dim

---

## 167. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad(au) canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M C Child gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 172, “Adborth Craffu Cyn Penderfynu ar Ganlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hŷn”, a 173, “Canlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hŷn”, ond arhosodd, siaradodd a phleidleisiodd o ganlyniad i'w ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau;

2) Datganodd y Cynghorwyr M C Child, W Evans, R Francis-Davies, D H Hopkins, A S Lewis, C E Lloyd ac M Thomas gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 178, "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol";

3) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor ac M Sherwood gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 178, "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 168. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018;

2) Cyfarfod o'r Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018.

**169. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.**

Nododd Arweinydd y Cyngor y caiff system e-bleidleisio'r awdurdod ei phrofi; fodd bynnag, nid hon fyddai'r bleidlais ffurfiol. Byddai'r weithdrefn bleidleisio draddodiadol sef codi llaw yn cael ei defnyddio i gofnodi'r bleidlais ffurfiol.

**170. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**171. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd A M Day nifer o gwestiynau ynghylch Cofnod 172, “Adborth Craffu Cyn Penderfynu ar Ganlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hŷn”, a Chofnod 173, “Canlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hŷn”.

Ymatebodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles.

**172. Adborth craffu cyn penderfyniad - Canlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hyn.**

Cyflwynodd y Cynghorydd P M Black yr adborth craffu cyn penderfynu gan Banel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion.

**173. Canlyniad Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hyn**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn amlinellu'r opsiynau a ffefrir ar gyfer Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd i Bobl Hŷn, er mwyn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad staff a chyhoeddus ar yr opsiynau a ffefrir.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Caiff ailalluogi gofal cymhleth a phreswyl ei gomisiynu drwy wasanaeth preswyl mewnol yr awdurdod a chrynhoir seibiant preswyl yn y gwasanaeth mewnol, oni bai fod defnyddwyr gwasanaeth yn dewis gofal seibiant neu gymhleth yn y sector annibynnol.

2) Y bydd yr awdurdod yn bwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad staff a chyhoeddus 12 wythnos ar y cynnig i gynnal model cyflwyno cymysg o wasanaethau mewnol ac allanol a defnyddio mwy o arbenigedd o ran gwelyau mewnol;

3) Y bydd yr awdurdod yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad staff a chyhoeddus 12 wythnos ar y cynnig i drawsnewid y gwasanaeth dydd fel ei fod yn canolbwyntio ar ddibyniaeth uwch a gofal cymhleth/dementia.

## 174. Adolygiad y Gwasanaethau i Oedolion o Strategaethau Comisiynu ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu, Anabledd Corfforol a Nam Synhwyraidd ac Iechyd Meddwl.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o gynnydd hyd yn hyn gyda'r Adolygiadau Comisiynu Gwasanaethau i Oedolion o ran y ddarpariaeth llety a thai a gwasanaethau dydd i oedolion ag anabledd dysgu a nam synhwyraidd, ac iechyd meddwl, gyda golwg ar geisio cytundeb ar y strategaethau hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r strategaethau canlynol:

1) Strategaeth Comisiynu Iechyd Meddwl;
2) Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Anableddau Dysgu;
3) Strategaeth Comisiynu Anableddau Corfforol a Namau Synhwyraidd.

## 175. FPR 7 - Rhaglen Grant Cyfleusterau ir Anabl a Grant Gwella 2018/19.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladau adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2018-2019. Mae'r adroddiad yn cydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf" - i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn ôl y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella, fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ac y dylid ei chynnwys yng Nghyllideb Gyfalaf 2019-2017.

## 176. Papur am Gronfa Gyfun Bae'r Gorllewin ar gyfer Opsiynau Cartrefi Gofal.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles adroddiad a oedd yn amlygu'r ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni trefniadau cronfa a rennir ar gyfer cartrefi gofal ac yn gwneud argymhellion i'w rhoi ar waith.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Rhoi opsiwn 1, fel y'i hamlinellir yn yr adroddiad, ar waith.

## 177. FPR 7 - Amddiffyn Arfordir y Mwmbwls Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2018/19.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd adroddiad a oedd yn cadarnhau'r grant (cyfalaf) Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys gwariant yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Y dylid cadarnhau'r grant (cyfalaf) Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd sef £682,500 ac y dylid cynnwys 25% o arian cyfatebol ar gyfer y cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd 2018 i 2020. Cyfanswm cost cam cychwynnol y cynllun yw £910,000.

## 178. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Y dylid cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd Llandeilo Ferwallt | Y Cyng. Lyndon Jones |
| 2) | Ysgol Gynradd Brynmill | Diane Ford<br>Y Cyng. Mary Sherwood |
| 3) | Ysgol Gynradd Cadle | Y Cyng. Elliott King |
| 4) | Ysgol Gynradd Cilâ | Yvonne Brenton |
| 5) | Ysgol Gynradd Dyfnant | David Maclaughland |
| 6) | Ysgol Gynradd Gendros | Ann Cook |
| 7) | Ysgol Gynradd y Glais | Stuart Page |
| 8) | Ysgol Gynradd Glyncollen | Michael Hedges |
| 9) | Ysgol Gynradd y Gors | John Morrissey |
| 10) | Ysgol Gynradd Gwyrosydd | Y Cyng. Samuel Pritchard |
| 11) | Ysgol Gynradd Llanrhidian, | Christopher Abbott |
| 12) | Ysgol Gynradd Ystumllwynarth | Y Cyng. Myles Langstone |
| 13) | Ysgol Gynradd Penllergaer | Faith McCready |
| 14) | Ysgol Gynradd Talycopa | Edwyn Davies |
| 15) | Ysgol Gynradd Tre Uchaf | Alan Hodges |
| 16) | Ysgol Gyfun Gatholig yr Esgob Vaughan | Joe Blackburn |
| 17) | Ysgol Gyfun Cefn Hengoed | Finola Wilson |
| 18) | Ysgol Gyfun Tre-gŵyr | Christine Hughes |
| 19) | Ysgol Gyfun Penyrheol | Y Cyng. Andrew Stevens |

Daeth y cyfarfod i ben am 2.49 pm

**Cadeirydd**

**Cyhoeddedig: 23 Ebrill 2018**